# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org trydar: @gwebethlehem | Gwaelod-y-garth | Rhifyn Dechrau Haf 2012

**Paratoi fideo i ddathlu 140 mlynedd**

# ‘Dechre ... yn y Gwaelod’



Y Gweinidog osododd yr her yn y lle cyntaf. Roedd Undeb yr Annibynwyr wedi buddsoddi mewn offer camera a sain soffistigedig - ac roedd cyfle i ni i’w ddefnyddio.


Aled Cartwright a Dylan Hughes (uchod) oedd y ddau wr ifanc brwdfrydig a atebodd yr her – creu fideo fyddai’n ddarlun byw o Fethlehem wrth i ni nodi fod yr adeilad yn 140 oed.

“Recces” o gylch y pentref, cyfarfodydd cynhyrchu, arbrofi gyda’r camera – ar ôl wythnosau o baratoi roedden ni’n barod i saethu! Golygfeydd o’r ardal, pensaerniaeth, derbyn aelodau newydd, gweithgaredd yr Ysgol Sul a holi ambell i gwestiwn pryfoclyd ...

Gyda help Delwyn Sion, a cherddoriaeth gan Ieuan Wyn, rydyn ni’n gobeithio y bydd y fideo i’w weld ym Methlehem cyn bo hir cyn i ni ei rannu â chynulleidfa ehangach trwy gyfrwng y We Fyd Eang. Dechre yn y Gwaelod – a gorffen ... wel, fe gawn ni weld!

**Rhys Powys**

***Tri gwr doeth yn cyrraedd Bethlehem – ym mis Mai! Trowch i dudalen 3 am yr hanes yn llawn a chanfod pwy yw pwy.***



**I’r Dyddiadur:**

***Nos Iau, Mehefin 21:***
Cyfarfod Blynyddol
Chwiorydd
Talaith y De

*Betsan Powys yn annerch a Mrs Bethan Thomas yn trosglwyddo’r awenau i Mrs Eirlys Davies, Radur.*

***Bore Sul, Gorffennaf 1af*:**
Enwebu elusen
yn oedfa’r bore

***Bore Sul, Gorffennaf 8fed*:**
Pleidleisio am elusen
yn oedfa’r bore

***Nos Sul, Gorffennaf 15ed*:**
Swper Haf
Festri Bethlehem
*am 5.00 o’r gloch*
*cyflwyno siec yr elusen am eleni*

***Dydd Sadwrn, Hydref 6ed*:**
Diwrnod i’r Brenin
Maes y Sioe Amaethyddol
Llanelwedd

# SULIAU BETHLEHEM Mehefin – Rhagfyr 2012

MEHEFIN
3. Y Parchg. Ieuan Davies
10. Y Parchg. R. Alun Evans
17. Oedfa Goffa 200mlwyddiant geni Henry Richard (Gwyn Griffiths, Pontypridd)
24. Y Parchg. Noel A. Davies

GORFFENNAF
1. Gwasanaeth Ardal - Gogledd a Dwyrain Caerdydd
8. Y Parchg. R. Alun Evans
15. Dim Oedfa ym Methlehem - (Sul y Cyfundeb)
22. Y Parchg. R. Alun Evans
28. Oedfa ym Methlehem – dan ofal yr Aelodau - (Efail Isaf yn ymuno)

**Cyfeiriadau:**


**Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,**
***Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39 , ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk


AWST
5. Oedfa Gymun yn y Tabernacl, Efail Isaf
12. Oedfa ym Methlehem - dan ofal yr Aelodau
19. Oedfa yn y Tabernacl, Efail Isaf
26. Oedfa yn Methlehem - dan ofal yr Aelodau

MEDI
2. Dim trefniant eto
9. Y Parchg. R. Alun Evans
16. Y Parchg. Allan Pickard
23. Y Parchg. R. Alun Evans
30. Gwasanaeth Ardal - Gwaelod y Garth, Ffynnon Taf a Thongwynlais

HYDREF
7. Sul Adferiad dan ofal y Cyngor Alcohol a Chyffuriau
14. Y Parchg. R. Alun Evans
21. Y Parchg. Derwyn Morris Jones
28. Y Parchg. R. Alun Evans

TACHWEDD
4. Cwrdd Diolchgarwch dan ofal yr Ysgol Sul
11. Y Parchg. R. Alun Evans
18. Dathlu 140 mlwydd Capel Bethlehem - dan ofal Peter Wynn Thomas
25. Y Parchg. R. Alun Evans

RHAGFYR
2. Dim trefniaNt eto
9. Bore - Ymarfer i blant yr Ysgol Sul.
Nos - Oedfa Gymun - Y Gweinidog
16. Bore - Ymweld a Chartre Gofal.
Nos - Oedfa Naw Llith a Charol
23. Gwasanaeth Nadolig y Plant.
30. Y Parchg. Dafydd Owen.

Os oes ganddoch chi bwt o newyddion – beth am ei anfon aton ni? **[tycnau@aol.com]**

## LLONGYFARCHIADAU ...



**i Meilyr Sion, Yr Eglwys Newydd** - Ar Fawrth y 26ain gwahoddwyd Meilir yn ôl i Goleg Penybont i dderbyn gwobr "Myfyriwr y Flwyddyn – Tŷ Weston". Dyfernir y wobr i un o breswylwyr Tŷ Weston, sef y ganolfan i fyfyrwyr Anghenion Arbennig, lle bu Meilir yn lletya am dair blynedd tra'n y Coleg. Roedd Meilir yn derbyn y wobr am ei gyfraniad yn hybu'r Gymraeg yn y Coleg, ymysg ei gyd-fyfyrwyr a'r staff. Yn ystod ei gyfnod yno penderfynodd nifer o'r staff gofal fynychu dosbarthiadau i ddysgu'r Gymraeg, a dechreuodd eraill o'r staff academaidd ddefnyddio'r iaith yn eu gwersi. Bu nifer o'i gyd-fyfyrwyr yn Nhŷ Weston hefyd yn awyddus i ddysgu ambell i air a chyfarchiad Cymraeg.(Gweddus!!!)
Uchafbwynt y noson i Meilir oedd cael derbyn ei wobr oddi wrth yr anturiaethwraig a chyflwynydd teledu Lowri Morgan. Cafodd y capel gyfle i'w longyfarch hefyd un bore Sul, a rydyn ni wedi ail-greu'r cyflwyniad hwnnw ar gyfer ein llun i'r Bwletin.



**... i Ken Passmore, Radur**, am ennill Prif Wobr Lenyddol Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg. Cafodd Ken ei gadeirio mewn seremoni yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg, lle mae wedi bod yn dilyn cwrs Dysgu Cymraeg i Oedolion.

### ... a CHROESO I'R BABIS

*Sara Ceindeg*
– merch Gwenan a Huw, chwaer i Megan ac Alaw

*Lois Martha*
- merch Elen a Steff.

*Carmen Lisi*
– merch Esyllt a Doc.

*Lili Grace Elisabeth*
– merch Ywain (Creigiau gynt) a Fiona

... **i Nia Jones, Radur**, wedi ei hethol yn is-lywydd rhanbarth y De-Ddwyrain o Ferched y Wawr.




# Diwedd Tymor?

Benthyciad yw'r gair '***tymor***' o'r Lladin '***tempor***'. Nid yr un yw 'tymor' ffermwr â 'thymor' yr athro coleg o ran prysurdeb, yn arbennig tymor yr haf. Gellir dweud yr un peth am dymor y bugail a'i braidd.
I Miss Norah Isaac dechrau blwyddyn oedd dechrau Awst. Eleni, bydd llawer ohonom ninnau yn cyrchu am faes Eisteddfod Bro Morgannwg. Tros y blynyddoedd bu'r gwahanol dymhorau yn destunau awdlau'r brifwyl. Awdl 'Yr Haf' a enillodd gadair i R. Williams Parry ym Mae Colwyn 1910. Bardd ac ysgolhaig arall aeth â hi yn Rhydaman 1922. 'Y Gaeaf' oedd testun awdl fuddugol J. Lloyd-Jones, pennaeth cyntaf yr Adran Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Dulyn. 'Hydref' oedd hi yn Hen Golwyn 1942 pan gadeiriwyd Rolant o Fôn [a J. M. Edwards, tad Emyr, yr un flwyddyn yn ennill y Goron am ei bryddest 'Peiriannau']. Yn 1976 awdl Dic Jones i'r 'Gwanwyn' ddaeth i'r brig ond Alan Llwyd gadeiriwyd am fod Dic, yn dechnegol, wedi torri rheol.
Pwy, tybed, ddaw i'r brig eleni? 'Llanw' yw testun y "dilyniant o gerddi mewn cynghanedd gyflawn" a hon fydd seremoni lwyfan olaf yr Archdderwydd presennol, Jim Parc Nest. Yn gynt yr un wythnos, ac ar yr un llwyfan, bydd un arall o'r teulu athrylithgar hwn, John Gwilym, yn cael ei ddyrchafu yn Gymrawd yr Eisteddfod Genedlaethol.
'***Tempus fugit***'. Ond ar gloc tywydd ym Mhrifysgol Bangor fe ddywedir ***'Hed amser' meddi*, *'Na'*. *Erys amser*, *Dyn â.'*** Ble bynnag y byddwch chi'n mynd y tymor hwn, gobeithio y cewch chi 'dempus' dedwydd ac y cawn ni fedi o'ch profiadau ac o'ch ffyddlondeb trwy'r holl dymhorau ym Methlehem. ***"Tra bo hen dylwyth yn medi'i ffrwythau ..."***

**R Alun**

## Eich myfyrdodau am Y Pasg

*Fe gofiwch am apêl a gwahoddiad y gweinidog i ni ysgrifennu ein hoff ddyfyniad neu atgofion am Y Pasg. Casglwyd y cyfan ynghyd a'u gosod ar un o barwydydd Y Festri. Maen nhw yno o hyd – i ni gael darllen y dyfyniadau ac, wrth eu darllen, i fyfyrio ar neges Y Pasg. Isod, fe welwch gip ar y cyfan – bydd rhaid i chi fynd yno i'w darllen:*




Ar fore Sul Cymun Mawr Mai, cafodd tri gwr ifanc eu derbyn yn aelodau ym Methlehem, – un peldroediwr, un meddyg ac un chwaraewr rygbi. Yn y llun, gwelir y gweinidog, Y Parchedig Ddr R. Alun Evans yn eu croesawu – (o'r chwith) Geraint Passmore, athro sydd hefyd yn chwarae peldroed i Dre Caerfyrddin, y Dr Aled Davies, sy'n feddyg teulu ym Mhontypridd a Rhodri Gomer Davies, un o chwaraewyr rygbi'r Sgarlets.
(ac maen nhw i'w gweld ar y dudalen nesaf hefyd yn cyflwyno medalau 'Bethlympaidd' i'r plant!)



**'Tri gwr doeth' Mis Mai ym Methlehem**

## Cyngerdd yr Elusen, Medalau 'Bethlympaidd' a dathliadau Gŵyl Ddewi





Disgyblion Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth dan arweiniad Tania Wilson Price *(uchod)* a Pharti'r Efail dan arweiniad Menna Thomas *(chwith)* fu'n diddanu yn y Cyngerdd blynyddol – gyda'r elw'n mynd at yr elusen leol, Y 'Stafell Fyw'. Bydd yr arian gasglwyd yn ystod dwy flynedd o weithgareddau'n yn cael ei gyflwyno yn y **Swper Haf, Nos Sul, Gorffennaf 15fed**.



*(dde)* Tasg gynta'r tri aelod newydd – arwisgo plant yr oedfa â medalau aur yn ystod oedfa'r bore. *(chwith)* Heulwen Jones yn dilyn ffasiwn ei chôr ifanc *(isod)* ar fore'r Oedfa Gŵyl Ddewi. Delyth Evans sy'n cyfeilio.





**DAN HELYGEN CYFRAITH Y GWRAGEDD**



***Dan amodau arferol, byddai'r golygydd Philistaidd wedi torri ymylon y llun uchod – gan adael dim ond rhes o wynebau. Ond y tro hwn, rhaid oedd cynnwys y goeden! Dyma aelodau'r Cwrdd Merched dan y goeden Helygen sy'n cynrychioli Cyfraith y Gwragedd yng Ngardd Canolfan Hywel Dda yn Hendy-gwyn ar Daf.***

## Taith flynyddol Chwiorydd Bethlehem

Rhyw fore oer ym mis Mai oedd hi a chriw o 'ferched' Bethlehem, Gwaelod-y garth yn ymgynnull yn Radur. Cyrhaeddodd pawb yn brydlon a dyma ni ar ein ffordd i Hendy-gwyn ar Daf.

Cawsom siwrnai gyfforddus iawn gyda Dafydd wrth y llyw.. (Rhaid oedd stopio am goffi, wrth gwrs!) a chyn bo hir dyma gyrraedd "Yr *unig ardd yn Ewrop yn gysylltiedig â'r Gyfraith*"

Gardd a Chanolfan Wybodaeth sydd yma i gofio un o ffigurau hanesyddol mwyaf Cymru, sef Hywel Dda, "Brenin Cymru Oll" ar ddechrau'r ddegfed ganrif. Yn ôl traddodiad galwodd Hywel gynrychiolwyr o bob cwmwd yn y deyrnas i'r 'Tŷ Gwyn ar Daf yn Nyfed' er mwyn cyfundrefnu'r cyfreithiau.

Treulion ni ryw awr fach yn crwydro o gwmpas yr Ardd lle saif Cofeb a gynlluniwyd gan Peter Lord o Aberystwyth. Mae'r Ardd yn cynnwys chwe gardd fechan gyda phob un ohonynt yn cynrychioli rhan arbennig o'r Gyfraith.

Erbyn hyn roeddem yn barod am ginio ac, felly, ymlaen â ni at Arberth lle cawsom ginio blasus iawn a chyfle i ymlacio yng nghadeiriau moethus Gwesty Plas Hyfryd (er dewisodd ambell un chwilio am siop neu ddwy!)

Cawsom ddiwrnod i'r Brenin! Diolch yn fawr iawn i Dafydd am ein gyrru'n ddiogel ac i Eirlys am drefnu'r daith unwaith eto.

***Gwyneth Lewis***

**CYDYMDEIMLWN â:**

**Vi Jones**,(Pentyrch) wedi colli ei chefnder - Elfyn Scourfield, Sain Ffagan gynt.

**Delyth Evans** (Yr Eglwys Newydd) wedi colli ei hewythr yn Llanarthne.

**Heulwen Jones** (Yr Eglwys Newydd) wedi colli modryb yn Rhydaman.

**Hefin Mathias** (Yr Eglwys Newydd) wedi colli ei fodryb yn Nhregaron.

**LLONGYFARCHIADAU i:**

**Mr & Mrs Eurfryn Thomas** (Radur) ar ddathlu eu priodas aur. Eurfryn, wrth gwrs, yw un o drysoryddion Bethlehem.

**Geraint Huws** (Ffwrnes Blwm) ar ei benodi i swydd athro yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.

**WEDI GWELLA...**

Da gweld bod **Peredur Evans**, (Yr Eglwys Newydd) un o'n trysoryddion, wedi cael adferiad ar ôl triniaeth lawfeddygol.

Felly hefyd **John Ifans** (Radur) sydd wedi cael triniaeth i'w ysgwydd ac **Enid Davies** (Creigiau) sydd wedi cael triniaeth i'w phenglin.



(chwith) Priodas Sara Lewis ac Aled Davies ar y 10fed o Fawrth. Dymunwn yn dda iddynt fel eglwys ar eu priodas.

(isod) Eirlys, Delwyn a Dylan, fu'n hel atgofion yn oedfa'r bore am gyfnod Gŵyl Ddewi eu plentyndod. Yna bu pawb yn mwynhau cawl yn y festri.





